Comisiwn Bevan Commission

Gwerthoedd a gwerth y trydydd sector:

cydweithio â'r sector statudol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mai 2024

www.bevancommission.org
©Comisiwn Bevan

helplu helpforce

WCVA CGGC

RNC

CYDNABYDDIAETH

Rydym yn ddiolchgar i gwmni Richard Newton Consulting Ltd ac i Dr Fiona Liddell, Rheolwr Helplu Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, am eu gwaith yn ymchwilio ac yn ysgrifennu'r papur hwn.

CYNNWYS

00

Crynodeb gweithredol 02

Rhagymadrodd 06

ADRAN 1: Cyd-destun strategol 08

ADRAN 2: Y trydydd sector mewn ecoleg draws-sector o iechyd a gofal 10

ADRAN 3: Rhwydweithiau a seilwaith y trydydd sector 13

ADRAN 4: Gwerthoedd a buddion y trydydd sector 15

ADRAN 5: Gwella a chefnogi'r 'system' 18

ADRAN 6: Cyfleoedd i gydweithio ar draws sectorau 22

ADRAN 7: Themâu ar gyfer newid: materion ac atebion 24

ADRAN 8: Casgliad ac argymhellion 30

ADRAN 9: Atodiad 1 – Methodoleg 33

ADRAN 10: Atodiad 2 – Rhestr o Astudiaethau Achos 36

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ar adeg pan fo angen i'n system gofal iechyd symud o wasanaethau acíwt i wasanaethau atal ac o'r ysbyty i'r gymuned, mae angen cyfraniad y trydydd sector yn fwy nag erioed.

Mae Comisiwn Bevan wedi bod yn eiriol dros ofal iechyd darbodus ers degawd bellach[1]. Mae ei adroddiad diweddaraf 'Y Sylfeini ar gyfer Model Iechyd a Gofal y Dyfodol yng Nghymru'[2] yn mynegi o'r newydd yr egwyddorion a'r sbardunau allweddol sy'n dangos y ffordd at y gofal iechyd cynaliadwy, teg ac integredig sydd ei angen arnom yng Nghymru. Mae hyn yn seiliedig ar sgyrsiau parhaus gyda'r cyhoedd[3] sy'n datgelu awydd cryf am newid radical, gan gynnwys mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.

Mae mudiadau'r trydydd sector wedi cyfrannu at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol cadarnhaol erioed, yn rhinwedd eu hymrwymiad i 'fudd cyhoeddus'. Mae rhai ohonynt wedi bod yn mynd ati i ddiwallu anghenion iechyd a gofal ers cyn i'n gwladwriaeth les ddod i fodolaeth (mae blogiad 'Beth fyddai'r Arglwydd Beveridge yn ei ddweud' yn edrych yn ôl ar gyfraniad y sector dros 75 mlynedd). Ers 1948, mae perthnasau gwahanol gyda gwasanaethau statudol wedi esblygu: mewn rhai achosion yn cymryd yr awenau (fel mewn gofal hosbis a rhai gwasanaethau achub mewn argyfwng), ac mewn achosion eraill yn darparu gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu neu'n gweithio mewn partneriaeth uniongyrchol â phartneriaid iechyd neu ofal cymdeithasol statudol. Mae llawer mwy'n gweithredu'n eithaf annibynnol, ond eto'n gweithio tuag at yr un nodau cyffredinol o ran iechyd a llesiant.

1 Bevancommission.org/cy/prudent-healthcare-the-provisional-principle 2014

2 Bevancommission.org/cy/the-future-foundations-for-the-future-model-of-health-and-care-in-Wales 2024

3 Bevancommission.org/cy/a-conversation-with-the-public-report 2023

Nod a dull

Bwriad y papur hwn yw bod yn gydymaith i 'Gwerthoedd a gwerth gwirfoddoli – ein hased cudd'[4] – sy'n archwilio swyddogaeth gwirfoddolwyr o fewn y sector statudol ac o fewn y trydydd sector, yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Arweiniodd ein hymchwil at wybodaeth gyfoethog yn seiliedig ar brofiadau amrywiaeth eang o fudiadau (o'r trydydd sector a'r sector statudol). Bydd rhywfaint o'r deunydd hwn yn cael ei gynnwys mewn papur ychwanegol o'r enw 'Pam mae'r trydydd sector yn bwysig i iechyd a llesiant yng Nghymru'.

Rydym eisoes wedi archwilio proffil ystadegol y trydydd sector o ran iechyd a gofal yng Nghymru drwy ddadansoddi ffynonellau data cyhoeddus (mae hyn wedi'i grynhoi mewn ffeithlun), ac roedd modd i'n hymchwil adeiladu ar y ddealltwriaeth a'r cysylltiadau a grëwyd yn y broses honno.

Pwyslais y papur hwn, felly, yw'r pwyntiau cyswllt rhwng y sector statudol a'r trydydd sector a'r potensial i gael cydweithio mwy effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau iechyd a gofal yng Nghymru.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un gyda 121 o unigolion. Roedd Cam 1 yn archwilio cyfleoedd a heriau ar gyfer perthnasau trydydd sector/sector statudol, o safbwyntiau gwahanol, gan gynnwys mudiadau statudol, mudiadau'r trydydd sector a mudiadau aelodaeth/seilwaith. Roedd Cam 2 yn archwilio materion sy'n dod i'r amlwg er mwyn canolbwyntio ar dair thema eang: meithrin perthnasau traws-sector, pennu a chyfathrebu gwerth a sicrhau newid trawsnewidiol.

Datblygwyd astudiaethau achos gydag 11 o fudiadau er mwyn gallu cyfleu'r amrywiaeth o gyd-destunau, buddion a heriau a brofwyd. Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniad pawb a chwaraeodd eu rhan yn y gwaith o lunio'r naratif hwn.

4 Bevancommission.org/publication-4 2022

Gwerthoedd a chryfderau'r trydydd sector

Rhai o nodweddion mudiadau'r trydydd sector yw eu bod yn hyblyg, yn wydn, yn annibynnol, bod ganddynt gysylltiadau, y gellir ymddiried ynddynt a'u bod yn cael eu gyrru gan werthoedd. Mae'r papur hwn yn amlygu cyrhaeddiad ehangach y trydydd sector i gymunedau, gan gynnwys at grwpiau ymylol a lleiafrifol a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig penodol. Amlygir hefyd y 'budd ehangach' – darpariaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol neu fanylebau gwasanaeth, sy'n bosibl yn sgil ffynonellau cyllido haelionus neu ffynonellau cyllido eraill, drwy gyfraniadau mewn nwyddau (fel gwirfoddoli) ac sydd, yn gyffredinol, yn canolbwyntio ar lesiant ac ar atal yn fwy nag ar angen acíwt.

Gan gydnabod nad oes gan lawer o'r trydydd sector berthynas ffurfiol â'r sector statudol (er eu bod yn chwarae rhan sylweddol o ran llesiant ac atal), rydym wedi nodi saith ffordd y gall mudiadau'r trydydd sector gyfoethogi a chefnogi gwasanaethau prif ffrwd. Dyma'r saith:

> cymorth o'r ysbyty i'r cartref, rhagnodi cymdeithasol, darpariaeth integredig, cydgynhyrchu, arloesi, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ymyrraeth gynnar.

Dyma'r meysydd lle teimlwn y gall y trydydd sector wneud y cyfraniadau mwyaf sylweddol i ddarpariaeth y sector statudol.

Cydweithio i gael gwell gofal iechyd – argymhellion

Archwilir materion ac atebion posibl o dan bedwar pennawd, sy'n themâu clir ar gyfer newid:

- Cydweithio a chydweithredu
- Cynrychiolaeth a chynllunio
- Cynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- Cydnabod, dysgu ac arloesi

Argymhellion cloi

I gloi, rydym wedi nodi pum argymhelliad cyffredinol. Bydd cynnydd o ran mynd i'r afael â'r rhain yn ein helpu'n sylweddol i sicrhau gwasanaeth iechyd sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

1 Sicrhau deialog gynnar a chyson rhwng yr holl bartïon perthnasol, er mwyn galluogi atebion cydweithredol, gwasanaethau integredig a sicrhau y gellir defnyddio'r holl asedau ac adnoddau sydd ar gael i sicrhau canlyniadau sy'n flaenoriaeth.

2 Gwneud defnydd o seilwaith presennol y trydydd sector a chryfhau rhwydweithiau presennol.

3 Diogelu a blaenoriaethu buddsoddiad yn y meysydd canlynol. Dyma lle gall y trydydd sector wneud y cyfraniadau mwyaf sylweddol: rhagnodi cymdeithasol; o'r ysbyty i'r cartref; ymyrraeth gynnar; cydgynhyrchu; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; arloesi; darpariaeth integredig.

4 Cadw at God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector.

5 Datblygu dull cenedlaethol, 'system gyfan' o fonitro'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn erbyn blaenoriaethau cyllido a strategol.

RHAGYMADRODD

Nod yr ymchwil ar gyfer y papur hwn, a gomisiynwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar y cyd â Chomisiwn Bevan, oedd nodi gwerthoedd a gwerth y trydydd sector yn y gwaith o gefnogi canlyniadau iechyd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar waith sydd wedi'i gyhoeddi'n flaenorol (gan gynnwys 'Gwerthoedd a gwerth gwirfoddoli – ein hased cudd'[5] a ffeithlun yn seiliedig ar ffynonellau data oedd ar gael).

Cydnabyddir bod y trydydd sector yn cefnogi sbectrwm eang o weithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ond mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y 'pwyntiau cyffwrdd' rhwng y trydydd sector a darpariaeth gwasanaethau statudol ac yn archwilio'r mater drwy lens dyletswyddau'r sector statudol a'r cyfrifoldeb a'r cyfleoedd i gydweithio.

Mae ein cyd-destun presennol yn un o ofynion aruthrol a gwasanaethau anghynaladwy. Nod Comisiwn Bevan yw herio, newid a hyrwyddo meddylfryd ac arferion i sicrhau iechyd a gofal cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Ategir hyn gan bedair egwyddor ddarbodus gofal iechyd[6] – sydd i'w gweld yn Ffigur 1.

Mae'r papur hwn yn cyfrannu at yr alwad honno am feddwl o'r newydd. Mae'n nodi'r ffyrdd amrywiol y mae trydydd sector Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, ac effaith a budd ehangach hollbwysig hyn i ddinasyddion a chymunedau ledled Cymru. Mae'n rhoi sail i'r rhan y gallai'r trydydd sector ei chwarae yn y dyfodol o ran cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, o ystyried yr heriau enbyd y mae pob sector yn eu hwynebu, ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio traws-sector mwy effeithiol.

5 Bevancommission.org/publication-4 2022

6 Bevancommission.org/cy/a-prudent-approach-to-health-prudent-health-principles 2015

Mae CGGC wedi cael tair blynedd o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Prosiect Iechyd a Gofal ar gyfer y trydydd sector. Dros gyfnod o dair blynedd, bydd yn anelu i fod yn effeithiol yn ysgogi perthnasau, gwirfoddoli a chefnogaeth ar draws y system iechyd a gofal er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n flaenoriaeth a gwneud y mwyaf o gyfraniad cydnabyddedig mudiadau'r trydydd sector a gwirfoddolwyr tuag at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ffigur 1 Y pedair egwyddor ddarbodus

ADRAN

01

CYD-DESTUN STRATEGOL

Mae gofal iechyd yng Nghymru, fel y'i darperir gan y GIG, o dan bwysau enbyd ac nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Mae datblygiadau technolegol yn ein galluogi i fynd i'r afael yn effeithiol â llawer o agweddau ar afiechyd. Maent hefyd yn codi disgwyliadau'r cyhoedd ac yn golygu bod pobl yn byw'n hŷn. O ganlyniad, mae galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun cyflyrau cronig ac afiachedd sy'n gysylltiedig â chyfnodau diweddarach bywyd. Rhagwelir y bydd gan fwy nag un o bob tri yng Nghymru salwch difrifol erbyn 2040; ac mae'r nifer yn cynyddu'n gyflymach na nifer y bobl sydd o oedran gweithio.

Gall gofal effeithiol atal yr angen i atgyfeirio at wasanaethau iechyd statudol, neu gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o ofal iechyd fel claf mewnol i fyw'n annibynnol neu fyw gyda chymorth.

Mae hon yn ecoleg gymhleth sy'n cynnwys y sector statudol, y trydydd sector a'r sector preifat; pob un yn cyflawni swyddogaethau strategol a gweithredol drwy ddarparu a chynllunio gwasanaethau. Mae sefyllfa'r cyhoedd, fel defnyddwyr gwasanaeth, yn bwysig yn sgil eu disgwyliadau o ran triniaeth a'u hagweddau o ran ffordd o fyw sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau iechyd.

Mae rhwymedigaeth draws-sector i weithio ar y cyd i ddiwygio a thrawsnewid gwasanaethau, gan weithio mewn ffordd arloesol i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi iechyd a gofal y genedl. Mae hyn yn gofyn am symud o fodel meddygol traddodiadol i fodel sy'n canolbwyntio ar lesiant, gan greu Cymru Gydradd o Iach.

Ffigur 2 Sylfeini ar gyfer model y dyfodol o wasanaeth iechyd a gofal cynaliadwy ar gyfer Cymru gydradd o iach



Mae'r pedair sylfaen yn 'Y Sylfeini ar gyfer Model Iechyd a Gofal y Dyfodol yng Nghymru', sydd wedi'u disgrifio gan Gomisiwn Bevan, i'w gweld yn Ffigur 2. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rhaid rhoi sylw i bedwar gyrrwr sydd wedi'u nodi:

- **Partneriaethau:** Mae angen cydweithredu a chydweithio, nid cystadleuaeth, ochr yn ochr â pharodrwydd i rannu dysg ac addasu a mabwysiadu syniadau newydd gyda'n gilydd.
- **Data:** Bydd defnydd effeithiol o ddata yn hanfodol i sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni yn y ffordd fwyaf effeithlon, gan dargedu'n arbennig y rhai sydd fwyaf mewn angen.
- **Technoleg:** Bydd technoleg yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn grymuso pobl ac yn ennyn eu diddordeb yn eu hiechyd eu hunain ac er mwyn cefnogi gweithwyr proffesiynol i sicrhau'r atebion a'r systemau mwyaf darbodus.
- **Gweithlu:** Bydd yn hollbwysig datblygu gweithlu sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol, cleifion a'r trydydd sector, gyda'r cymwyseddau a'r sgiliau hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion y dyfodol, gan adeiladu ar yr uchod i gyd.

At yr olaf, efallai y gallem hefyd ychwanegu 'gwirfoddolwyr' (sy'n weithgar yng nghyd-destun y sector statudol a'r trydydd sector).

ADRAN

02

Y TRYDYDD SECTOR MEWN ECOLEG DRAWS-SECTOR O IECHYD A GOFAL

Mae'r ecoleg iechyd a gofal yn cynnwys mudiadau o bob rhan o'r sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector, ynghyd â gofalwyr di-dâl a dinasyddion.

Mae mudiadau o fewn yr ecoleg hon yn chwarae rhannau gwahanol ond rhyngddibynnol, gan ddarparu cymorth i'r boblogaeth ehangach.

Ystod amrywiol o fudiadau sy'n rhannu cyfres o werthoedd a nodweddion yw'r trydydd sector. Mae'n gweithredu ar sail nid-er-elw ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth. Mae mudiadau'n cael eu sefydlu'n wirfoddol gan unigolion sydd wedi'u cymell gan ddibenion cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol. Cydnabyddir yn eang bod mudiadau'r trydydd sector yn bodoli i gyflawni newid cymdeithasol a/neu fudd cyhoeddus (mae hyn yn ofyniad er mwyn cael statws elusennol). Er bod elusennau cofrestredig yn gweithredu o fewn y trydydd sector, mae yna sawl math arall o fudiad, gan gynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, mudiadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cydgymorth.

Mae'r diagram isod yn dangos sefyllfa'r trydydd sector o ran cefnogi canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol i boblogaeth Cymru.



Ffigur 3 Sefyllfa'r trydydd sector o ran cefnogi canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol

Gall mudiadau'r trydydd sector ddarparu gwasanaethau (sy'n aml yn ofynnol o dan y gyfraith), sy'n cael eu comisiynu gan fudiadau iechyd a gofal cymdeithasol statudol. Gallant ddarparu cymorth ehangach sy'n ymestyn y tu hwnt i rwymedigaethau statudol / gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu.

Mae'r rhan fwyaf o waith contractio uniongyrchol gyda'r trydydd sector yn debygol o ganolbwyntio ar angen acíwt a dyletswyddau statudol, yn hytrach nag ymateb ataliol. Yn gyntaf, bydd corff cyhoeddus wedi penderfynu rhoi'r gwaith o ddarparu ar gontract allanol (fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth contractau cyhoeddus), ac nid yw hynny yr un peth â phenderfynu rhoi gwaith ar gontract allanol i'r trydydd sector. Fodd bynnag, gall y broses gaffael gystadleuol arwain at gontractio naill ai'n uniongyrchol â'r trydydd sector, neu'n anuniongyrchol drwy gadwyn gyflenwi gymysg. Yn anochel, y mudiadau trydydd sector sefydledig mwy o faint sy'n gallu ymwneud â'r sector statudol ar y lefel hon.

Mae nifer y mudiadau trydydd sector sy'n ymwneud â 'chymorth ehangach' yn llawer uwch na'r nifer sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni dyletswydd statudol. Mae llawer o'r rhain heb berthynas ffurfiol gyda darparwyr gwasanaethau statudol. Mae'r cymorth ehangach hwn yn amrywiol o ran maint ac arddull ac mae'n fwy tebygol o adlewyrchu'r agendâu atal a llesiant.

Gall gwasanaethau trydydd sector gael eu darparu gan staff a/neu wirfoddolwyr ac maent yn cynnwys gweithgareddau sy'n:

- **Cysylltu defnyddwyr â darpariaeth iechyd/gofal** e.e. cludiant cleifion, ambiwlansys awyr, ymatebwyr cyntaf, llwybrau/cymorth ar gyfer byw'n annibynnol.
- **Darparu amgylcheddau cymorth/triniaeth amgen** e.e. mudiad yr hosbisau, rhagnodi cymdeithasol, cymorth cyfoedion.
- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd:** drwy addysg, profion a mynediad at gymunedau penodol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u tangynrychioli mewn gwasanaethau iechyd a gofal prif ffrwd.
- **Gwella profiad y defnyddiwr:** drwy ddarparu gweithgareddau fel siopau ysbyty, ymweliadau â wardiau a chyfeillio, cwnsela, neu wirfoddoli mewn canolfannau brechu.
- **Darparu cyngor neu eiriolaeth:** i'r rhai sy'n cael gwasanaethau iechyd a gofal statudol. Gall hyn ymestyn y tu hwnt i gymorth 'sy'n gysylltiedig â chyflwr' i gynnwys cyngor ar fudd-daliadau a chymorth ymarferol o ran trefniadau diwedd oes.
- **Darparu cymorth i deulu a ffrindiau** yn sgil darpariaeth iechyd neu ofal i'w hanwyliaid, gan gynnwys cymorth profedigaeth, addasiadau cartref neu gyfleusterau pwrpasol i deuluoedd mewn ysbyty.
- **Meithrin capasiti** y sectorau iechyd a gofal drwy gyllido ymchwil, addysg a hyfforddiant galwedigaethol, neu safonau a gwaith cynllunio'r gweithlu (e.e. drwy'r Colegau Meddygol Brenhinol).

Mae cymorth y trydydd sector yn debygol o ddefnyddio cryfderau cymunedol (gwirfoddolwyr, gwybodaeth, eiddo a chyfleusterau) i gefnogi annibyniaeth cymunedau lleol ac wrth wneud hynny, lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.

ADRAN

03

RHWYDWEITHIAU A SEILWAITH Y TRYDYDD SECTOR

Mae mudiadau'r trydydd sector yn cysylltu â'i gilydd drwy seilwaith cenedlaethol a rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol.

Ar lefel genedlaethol, mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn cydlynu ac yn darparu cymorth i'r sector drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau). Un o swyddogaethau CGGC yw hwyluso deialog rhwng mudiadau'r trydydd sector a gweinidogion Llywodraeth Cymru, drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector; mae mudiadau sy'n cynrychioli iechyd a gofal cymdeithasol yn cwrdd â'r gweinidogion perthnasol ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r seilwaith a ddisgrifir uchod yn unigryw i Gymru ac yn ased y gallwn fod yn falch ohono. Mae'n darparu sianeli cydnabyddedig i'r llywodraeth a chyrff statudol ymwneud â'r hyn a allai fel arall ymddangos fel amrywiaeth dryslyd ac anhrefnus o fudiadau.

Mae cyrff seilwaith cenedlaethol, fel Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru, yn darparu cymorth a chynrychiolaeth i fudiadau arbenigol hefyd. Mae rhwydweithiau fel y gynghrair iechyd meddwl neu'r gynghrair canser yn galluogi cynghreiriau o fudiadau sydd â diddordebau tebyg i gydweithio'n anffurfiol.

ADRAN

04

GWERTHOEDD A BUDDION Y TRYDYDD SECTOR

Er bod y trydydd sector yng Nghymru yn cynnwys miloedd lawer o fudiadau amrywiol (gweler ein ffeithlun) mae'n rhannu cyfres gyffredin o werthoedd, yr ydym wedi'u nodi yn ein hymchwil fel a ganlyn:



Drwy'r gwerthoedd hyn, gall y trydydd sector gynnig buddion sylweddol i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Roedd gwaith ymgynghori gyda mudiadau'r trydydd sector ar gyfer y papur hwn yn amlygu'r ffaith bod yn well ganddynt siarad am y *buddion* a ddarperir yn hytrach na'r *gwerth* a ddarperir. Mae hyn yn cysylltu â'r cysyniad o ddarparu budd cyhoeddus, sy'n rhagofyniad er mwyn gallu cofrestru fel elusen. Mae'n teimlo'n llai meintiol na 'gwerth' ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer o fuddion yn anodd eu mesur – yn enwedig i fudiadau llai o faint sydd heb lawer o gapasiti i'w ddefnyddio ar werthuso.

Mae rhai o fuddion y trydydd sector yn ymwneud ag **adnoddau**, gan gynnwys –

- Y gallu i sicrhau adnoddau o ffynonellau ehangach na'r pwrs cyhoeddus, fel rhoddion haelionus, rhoddion mewn nwyddau ac incwm masnachu.
- Cyfraniad gwirfoddolwyr i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau (dylid cydnabod bod y sector statudol a'r sector preifat hefyd yn ymwneud â gwirfoddolwyr). Roedd papur ar wahân gan Gomisiwn Bevan, 'Gwerthoedd a Gwerth Gwirfoddoli'[7], yn nodi mor anodd yw mesur gwerth gweithgarwch gwirfoddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae gwirfoddoli hefyd yn dod â buddion llesiant i'r gwirfoddolwr a gall chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu, gan ddarparu pwynt mynediad i greu llwybr gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Hyd yn oed pan fydd mudiadau trydydd sector yn darparu gwasanaethau ar ran mudiad statudol, maent yn aml yn gallu darparu buddion sy'n ymestyn y tu hwnt i'r fanyleb gwasanaeth gychwynnol. Soniodd mudiadau'r trydydd sector, gan gynnwys Tenovus, Alzheimer's UK a Mind, er enghraifft, sut mae'r cymorth a'r gwasanaethau gwybodaeth maen nhw'n eu darparu yn mynd ymhellach na'r hyn maen nhw'n cael eu talu i'w ddarparu a bod gwasanaethau o'r fath wedi'u datblygu gyda chyllid haelionus yn hytrach na statudol. Mae'r ymwybyddiaeth brand sy'n gysylltiedig â mudiadau o'r fath wedi eu gwneud 'y lle i fynd' i gael gwybodaeth am gyflyrau penodol, sy'n cael ei gydnabod a'i ddefnyddio gan y cyhoedd a gan weithwyr proffesiynol fel ei gilydd.

Mae buddion y trydydd sector hefyd yn ymwneud â **darpariaeth weithredol**, er enghraifft –

- Y gallu i **gynrychioli/ymgysylltu â chymunedau y mae'n anodd ymgysylltu â nhw**. Yn aml, mae mudiadau'r trydydd sector, drwy eu llywodraethiant, eu staff neu eu gwirfoddolwyr, yn gallu ymgysylltu, meithrin ymddiriedaeth a grymuso newid ymddygiad y tu hwnt i gyrhaeddiad mudiadau statudol. Wrth ddatblygu'r papur hwn, cawsom glywed gan fudiadau trydydd sector mawr sy'n darparu gwasanaethau statudol wedi'u comisiynu, a oedd yn cydnabod bod mudiadau trydydd sector bach ar lawr gwlad yn hanfodol i'w gwaith o ddarparu, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol.
- Gall gwasanaethau trydydd sector hyblyg, sy'n rhydd o ddyletswyddau statudol, guradu ymatebion sy'n **ymestyn y tu hwnt i'r cyfyngiadau sy'n wynebu'r sector statudol** (gan gynnwys rheoli risg a hierarchaethau rheoli). Drwy wydnwch ac effeithlonrwydd costau, gallant addasu i gynnydd cyflym yn y galw am wasanaethau. Mae tlodi bwyd cynyddol yn cael ei ddiwallu drwy gynyddu'r ddarpariaeth o fanciau bwyd, er enghraifft, a chydnabyddir bod ymateb y trydydd sector i argyfwng covid, ar lefel gymunedol, wedi bod ar y blaen i'r sector statudol.
- Gall **partneriaethau ffurfiol rhwng y trydydd sector a'r sector statudol** wella darpariaeth weithredol. Soniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am yr ychwanegedd oedd yn deillio o'i berthynas â Macmillan. Mae Macmillan yn gallu darparu cymorth llesiant i gleifion canser (a'u teuluoedd) sy'n ategu'r gwasanaethau iechyd y gall y Bwrdd Iechyd eu darparu.

7 Bevancommission.org/publication-4 2022

ADRAN

05

GWELLA A CHEFNOGI'R 'SYSTEM'

Gellir cyfoethogi a chefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol prif ffrwd drwy gydweithio effeithiol gyda'r trydydd sector.

Gall cydweithio o'r fath gefnogi darparwyr yn y sector statudol i gyflawni'r cyfraniadau sy'n ofynnol ganddynt tuag at flaenoriaethau iechyd a gofal, fel y rhai sydd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig GIG Cymru, yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach fel y rhai o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae cydweithio'n wahanol i natur 'drafodiadol' gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu ac efallai na fydd yn cynnwys adnoddau ariannol gan y sector statudol. Mae'n seiliedig ar ymddiriedaeth, cyfathrebu, tryloywder a chydweithredu, gyda statws cydradd rhwng partneriaid.

Isod mae enghreifftiau o ymarfer:

- sy'n cyd-fynd ag egwyddorion gofal iechyd darbodus
- sy'n cyflawni ymgysylltiad 'go iawn' â phobl a chymunedau
- sy'n rhoi gwerth ar asedau cymunedol
- sy'n cyfrannu at lywio, cynllunio a gwella gwasanaethau
- sy'n gwireddu datrysiadau wedi'u creu mewn lle/eu hunan-greu er mwyn cynnal iechyd a llesiant

Mae'r enghreifftiau hyn yn tynnu'n fras ar astudiaethau achos sy'n dangos sut gall y trydydd sector gyfrannu at y sylfeini ar gyfer model iechyd a gofal y dyfodol yng Nghymru. Rhoddir rhestr ehangach, gyda dolenni i'r astudiaethau achos llawn, yn Atodiad 2.

Galluogi cydgynhyrchu

Mudiad gwirfoddol yw **Credu** sy'n darparu cymorth i ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd ym Mhowys, Ceredigion, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych. Mae perthynas hirdymor Credu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Powys yn golygu eu bod yn ddarparwr sy'n ennyn ymddiriedaeth ac sydd wedi helpu i lunio gwasanaethau ac eiriol dros atebion creadigol ar gyfer sefyllfaoedd unigolion.

Darparu gwasanaeth 'ysbyty i'r cartref'

Partneriaeth yw **PIVOT** rhwng y Groes Goch, Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO), y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Gofal a Thrwsio a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS). Mae'r gwasanaeth yn atal derbyniadau i'r ysbyty, yn hwyluso trefniadau rhyddhau o'r ysbyty ac yn lleihau'r cymorth sydd ei angen gan asiantaethau statudol.

Rhagnodi Cymdeithasol

Gwasanaeth Llywio Cymunedol Sir Ddinbych. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio â'r trydydd sector ar ei brosiect Pwyntiau Siarad, gan gynnal sesiynau ym mhob llyfrgell ar draws y sir. Gall cynllun Pwyntiau Siarad atal pobl rhag mynd i argyfwng a rhag bod angen gwasanaethau drytach yn y dyfodol.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

Macmillan/Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo/Cwm Taf Morgannwg. Mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT) yn arwain ar brosiect gyda Chymorth Canser Macmillan i wella canlyniadau canser yng nghyn-gymunedau'r meysydd glo ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful drwy gysylltu â phobl leol mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r bartneriaeth eisiau gwella dealltwriaeth o rwystrau rhag ymgysylltu mewn cymunedau o amddifadedd uchel, codi ymwybyddiaeth o wasanaethau canser a chyd-greu atebion cynhwysol.

Defnyddio seilwaith presennol ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal

Cyswllt Cymunedol Môn. Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) yw Medrwn Môn, sy'n darparu cymorth a chyngor i grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar gyllid cynaliadwy, gwirfoddoli, llywodraethu da ac ymgysylltu a dylanwadu. Mae rhaglen Cyswllt Cymunedol Medrwn Môn wedi troi'n un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i lawer o ddarparwyr statudol, gan gynnwys y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Timau Adnoddau Cymunedol, fforwm Darparwyr Cymorth Tai, Meddygon Teulu, a Heddlu'r Gogledd. Mae Cyswllt Cymunedol Môn wedi gweld gwell presenoldeb mewn grwpiau cymunedol, gwell defnydd o adeiladau cymunedol a mwy o gyfleoedd i wirfoddoli.

Darpariaeth integredig

Help Iach. Mae'r prosiect enghreifftiol hwn gan Gomisiwn Bevan yn cyflwyno model o arfer da ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau ataliol ac argymhelliad y dylid buddsoddi yn y model a'i addasu er budd mwy o bobl yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'n egluro'r cydweithio sydd ei angen rhwng staff a gwirfoddolwyr y sector gwirfoddol a gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol statudol er mwyn cefnogi pobl sydd â chyflyrau cymhleth.

Ymyrraeth gynnar

Elusen yw **Gofal Solfach** a sefydlwyd gan y gymuned yn Solfach a Thre-groes yn Sir Benfro. Yn ogystal â lleihau unigedd a gwella llesiant, mae Gofal Solfach wedi atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty ac mae'n helpu trigolion i ddod adre o'r ysbyty'n gyflymach.

Cefnogi llesiant ehangach

Mae'r **Prosiect Partner Geni** yng Nghaerdydd yn cynnig cymorth i geiswyr noddfa beichiog sy'n wynebu rhoi genedigaeth ar eu pen eu hunain. Drwy ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol, y nod yw gwella canlyniadau iechyd, llesiant mamau a chyfleoedd bywyd babanod. Un o fuddion eraill gwaith yr elusen yw ei bod yn hyrwyddo integreiddio ac yn meithrin perthnasau cymunedol.

Arloesedd

Menter gymdeithasol ac elusen gofrestredig yw **ProMo Cymru** sy'n gweithio ar y cyd i ddatblygu cyfathrebiadau digidol i gynyddu ymgysylltiad cynulleidfa darged gyda gwasanaethau. Mae'n cefnogi'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddychmygu, profi a chreu gwell gwasanaethau. Mae ei gwaith yn cynnwys dod o hyd i atebion sy'n gweithio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, ac mae'n cael ei lywio gan brofiad o gyflawni prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol. Mae'r mudiad yn denu gweithwyr y mae eu gwerthoedd yn cyd-fynd â gwasanaeth cyhoeddus. Mae wedi ymrwymo i gyflawni gwaith o ansawdd sydd o fudd i'r gymuned ehangach.

ADRAN

06

CYFLEOEDD I GYDWEITHIO AR DRAWS SECTORAU

Mae cyfleoedd clir ar gyfer cydweithio a chydgynhyrchu rhwng y sector statudol a'r trydydd sector er mwyn creu eco-system iechyd a gofal fwy effeithiol.

Mae Comisiwn Bevan yn adrodd bod *'80-90% o iechyd da yn dod o ffactorau y tu allan i'n systemau iechyd a gofal dynodedig, [felly] all y systemau hyn ddim bod yn bell o weddill ein bywydau bob dydd. Rhaid i effeithiau ehangach ar iechyd dreiddio i brosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio cyhoeddus eraill – yn enwedig ar adegau o newid mawr'.*[8]

Mae gweithio gyda'r trydydd sector yn dangos cydnabyddiaeth o benderfynyddion ehangach iechyd.

Gall mwy o gydweithio rhwng y sector statudol a'r trydydd sector gyfrannu at ecoleg iechyd a gofal fydd yn sicrhau Cymru gydradd o iach, gan fod o fudd i'r gymdeithas gyfan yn unol â phedair sylfaen Comisiwn Bevan ar gyfer y dyfodol (gweler Ffigur 2) yn ogystal â'r egwyddorion ehangach yn Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus[9].

- **Pobl a Chymunedau Iach, Gwydn a Dyfeisgar**
  Mae'r trydydd sector yn ased cymunedol allweddol. Mae'n ymgysylltu â phobl a chymunedau, gan eu grymuso i gymryd rheolaeth dros eu llesiant eu hunain.
- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol Darbodus Integredig o Ansawdd**
  Gall y trydydd sector gyfrannu at waith cynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig. Mae gwneud y mwyaf o botensial gwirfoddolwyr, grwpiau cydgymorth a llais y dinesydd yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth gyfan a darparu gwasanaethau yn agos i'r cartref.
- **Gwasanaethau a Chymorth Cydradd o Iach a Chynaliadwy**
  Mae gan y trydydd sector ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi'r cyhoedd yn gyffredinol i fabwysiadu agwedd ddarbodus o ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal, ac yn y gwaith o ddatblygu'r modelau cyflawni.

8 https://bevancommission.org/cy/people-place-health/

9 https://bevancommission.org/cy/about-us/prudent-healthcare-principles/

ADRAN

07

THEMÂU AR GYFER NEWID: MATERION AC ATEBION

Roedd ymchwil a wnaed fel sail ar gyfer y papur hwn yn amlygu'r angen am degwch. I fod yn drawsnewidiol, mae angen i'r trydydd sector a'r sector statudol drin ei gilydd mewn modd teg a diduedd. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r ddau sector yn gydradd, o ystyried y gwahaniaeth sylweddol o ran eu strwythur, eu maint, eu hadnoddau a'u rhwymedigaethau.

Mae cyfleoedd ar gyfer newid wedi'u nodi, ac wedi'u crynhoi isod o dan bedair thema eang. Ar gyfer pob thema, rydym yn amlygu materion a nodwyd yn ein grwpiau ffocws a'n cyfweliadau, ynghyd ag atebion posibl.

Mae enghreifftiau pellach o'r heriau sy'n wynebu mudiadau unigol a sut maent yn mynd i'r afael â'r rhain i'w gweld yn Atodiad 2.

1. CYDWEITHIO A CHYDWEITHREDU

Mae angen inni sicrhau cydweithio a chydweithredu hirdymor effeithiol rhwng y ddau sector yn genedlaethol.

Materion a nodwyd	Datrysiadau posib
Dim data sylfaen Ni allai'r trydydd sector na'r sector statudol ddarparu gwybodaeth gyfunol am gydberthnasau cydweithredol presennol[10]. Heb ddeall y llinell sylfaen, ni allwn wneud galwad ar sail tystiolaeth am gydweithio ehangach.	**Strwythur adrodd cyffredin** - i gyrff cyhoeddus gasglu data cyson a deall swyddogaeth y trydydd sector yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau statudol.
Diwylliant ac agweddau Er y gall gwahaniaethau diwylliannol ychwanegu cadernid i unrhyw gydweithio, rhaid i'r gwahaniaethau hynny gael eu deall a'u parchu. Mae gwahaniaethau agwedd rhwng mudiadau (yn y naill sector neu'r llall) yn cael dylanwad cadarnhaol neu negyddol. Gwelsom fod perthnasau cadarnhaol yn aml yn dibynnu ar unigolion. Rhagdybir yn aml bod cydweithio ar draws sectorau yn gysylltiedig â thrafodion ariannol. Mae hyn yn gwneud pobl yn ochelgar pan fydd mathau eraill o gydweithio yn cael eu harchwilio.	**Codi ymwybyddiaeth** - o'r ddau sector, gan gynnwys y cyfleoedd, yr heriau a'r cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu. Cynyddu ymwybyddiaeth, hefyd, o'r model cymdeithasol o iechyd, drwy ddigwyddiadau dysgu ac ymwybyddiaeth ar y cyd a rhaglenni arweinyddiaeth fel Rhaglen Arweinyddiaeth Dosturiol Gofal Cymdeithasol Cymru.
Meithrin cystadleuaeth Mae mudiadau'r trydydd sector yn aml yn teimlo eu bod yn cystadlu â'i gilydd, yn enwedig am gyllid (o bob ffynhonnell). Mae hyn yn creu rhwystrau i gydweithredu a chydweithio o fewn y trydydd sector	**Gwneud defnydd o gyrff seilwaith presennol** - gan gynnwys Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Cwmpas, rhwydweithiau cenedlaethol a chyrff ymbarél: • I ddod â phobl ynghyd • I helpu i nodi anghenion a datrysiadau mwy darbodus • I helpu i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol • I alluogi gwell cyfeirio a chymorth wedi'i dargedu • I ddatblygu atebion sy'n adeiladu ar asedau cymunedol

10 Data heb ei gyhoeddi, gan gwmni Ymgynghori Richard Newton 2023, ar ran CGGC

Rhwystrau strwythurol. Gall cyfyngiadau rhannu data ac asesu risg, er enghraifft, greu rhwystrau i gydweithio. Soniodd unigolion o'r ddau sector bod llacio cyfyngiadau o'r fath gan y sector statudol yng nghyfnod y pandemig wedi arwain at welliant o ran cydweithio a darparu gwasanaethau.	**Cynnwys mudiadau'r trydydd sector mewn llwybrau cleifion a thimau aml-asiantaeth** Wrth wneud hynny, gallwn fapio a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gydweithio sy'n codi.

2. CYNRYCHIOLAETH A CHYNLLUNIO

Mae angen inni gydnabod y rhan y gall y trydydd sector ei chwarae o ran cynrychioli ac eiriol dros eraill, a sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan mewn prosesau cynllunio.

Materion a nodwyd	Datrysiadau posib
Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar le Mae cynllunio a darparu gwasanaethau sy'n ymatebol i gymunedau lleol yn her, o ystyried maint y partneriaid statudol sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol.	**Grymuso'r trydydd sector** - i gydgynhyrchu gwasanaethau gyda chymunedau lleol mewn ffordd ystyrlon a chyraeddadwy.
Cynrychiolaeth effeithiol o'r trydydd sector - o ystyried ei fod yn cynnwys miloedd o fudiadau annibynnol – yn amrywio o ran maint, cyrhaeddiad, natur a phwrpas.	**Gwneud defnydd o gyrff seilwaith** Cydnabod ehangder y trydydd sector a gweithio gyda'r mudiadau seilwaith mwyaf priodol yng nghyd-destun pob un o'r themâu cynllunio. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau cyffredinol sydd â phwyslais daearyddol fel Cefnogi Trydydd Sector Cymru a mudiadau thematig fel Plant yng Nghymru, y Gymdeithas Cludiant Cymunedol a mudiadau sy'n canolbwyntio ar gyflwr fel RNIB.
Anghysondeb o ran cydlynu a darparu adnoddau - ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol ledled Cymru	**Darparu adnoddau teg ar gyfer cynrychiolaeth a llais y trydydd sector** Cynrychiolaeth mewn partneriaethau strategol gan gynnwys rhai lleol (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Clystyrau Gofal Sylfaenol), rhanbarthol (Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) a chenedlaethol (fforymau, rhwydweithiau, is-grwpiau sy'n bwydo i mewn i'r broses gynllunio), i sicrhau llais y sector a chymunedau mewn gwaith cynllunio.

	Nodi sut mae adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer swyddogaethau cynrychioliadol ar hyn o bryd a 'chodi'r gwastad' lle mae angen. Dylai adnoddau i gefnogi cynrychiolaeth fod yn hygyrch i'r ddau sector.
Cynllunio a graddfeydd amser Nid yw'r amser sydd ei angen ar gyfer cydgynhyrchu gyda'r gymuned leol yn cyd-fynd yn hawdd â chylchoedd cynllunio'r sector statudol. Mae gwaith cynllunio'r sector statudol yn aml yn cael ei ysgogi gan anghenion acíwt a brys, tra bod llawer o gymorth y trydydd sector yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a llesiant, gyda chanlyniadau sy'n anoddach eu mesur.	
Mae mudiadau'r trydydd sector yn ddihyder - o ran dal mudiadau'r sector statudol i gyfrif, gan ofni y byddant yn peryglu perthnasau (sy'n cyllido neu fel arall).	

3. CYNALIADWY AR GYFER Y DYFODOL

Mae angen sicrhau bod gwasanaethau, p'un a ydynt yn cael eu darparu gan y sector statudol neu'r trydydd sector, yn gynaliadwy. Gellir gwella cynaliadwyedd drwy fabwysiadu egwyddorion darbodus, a mabwysiadu agwedd hirdymor a system gyfan.

Materion a nodwyd	Datrysiadau posib
Canfyddiad cul - bod trafodiad ariannol yn sail i berthnasau statudol/trydydd sector bob amser.	**Annog rhannu adnoddau anariannol** Er enghraifft: adeiladau, hyfforddiant a gwybodaeth, goruchwyliaeth broffesiynol, adborth a dealltwriaeth.
Cyllido tymor byr Perthnasau tymor byr yw perthnasau cyllido yn aml. Mae prosesau dyrannu cyllid yn aml yn hybu cystadleuaeth a nodau byr eu golwg, yn hytrach na chydweithio i sicrhau canlyniadau hirdymor.	**Blaenoriaethau clir; cadw at y Cod Ymarfer cyllido** Blaenoriaethu buddsoddiad yn y canlynol. Dyma'r meysydd lle gall y trydydd sector gael yr effaith fwyaf sylweddol. • rhagnodi cymdeithasol

	• o'r ysbyty i'r cartref • ymyrraeth gynnar • cydgynhyrchu • mynd i'r afael ag anghydraddoldebau • arloesi • darpariaeth integredig Cadw at God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd).
Dim strategaethau ymadael Yn aml, ychydig iawn o ystyriaeth, os o gwbl, sy'n cael ei rhoi i strategaethau ymadael gan y naill barti na'r llall, wrth lunio cytundebau amser penodol.	**Strategaethau ymadael wedi'u cynllunio** Mae angen i'r ddau barti roi ystyriaeth ddyledus i'r hyn fydd yn digwydd ar ôl i'r cytundeb ddod i ben. Dylai'r sector statudol fod yn ofalus wrth ddatblygu gweithgarwch newydd heb ystyried cynaladwyedd; ni ddylai'r trydydd sector dybio dibyniaeth ariannol ar y sector statudol wrth ddatblygu gweithgarwch.
Nid yw penderfyniadau comisiynu yn cydnabod y 'budd ychwanegol'. Mae mudiadau'r trydydd sector yn aml yn darparu buddion y tu hwnt i ddiben penodol y cyllid. Gallai hyn fod o ran darparu gwasanaeth ehangach, gwybodaeth neu fynediad at adnoddau ychwanegol (cyllid/gwirfoddolwyr, ac ati).	**Comisiynu yn seiliedig ar gyd-arweinyddiaeth** Datblygu ffyrdd o gomisiynu sy'n seiliedig ar gyd-arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd, cyllidebau cyfun, adborth ansoddol a dod o hyd i atebion arloesol – yn hytrach na bod yn seiliedig ar 'brynu'r un gwasanaethau'. Cydnabod a datblygu asedau presennol ym mhob cymuned; datblygu ymatebion sy'n seiliedig ar gryfderau cymunedol. Cydnabod buddion ychwanegol gweithio gyda mudiadau'r trydydd sector a ffurfioli gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol mewn trefniadau caffael. Dylai'r sector statudol gynnal asesiadau risg o effaith eu penderfyniadau cynllunio ac adnoddau ar y trydydd sector o ran sefydlogrwydd y farchnad, er mwyn osgoi gwneud drwg yn anfwriadol (yn enwedig i fudiadau nad ydynt yn eu cyllido).

Gwaith asesu, adrodd a gweinyddu anghymesur - sy'n gallu amharu ar y berthynas gyda'r trydydd sector a gwastraffu adnoddau.	**Prosesau cymesur** Lleihau gwaith anghymesur, gor-feichus ac sy'n dyblygu ymdrechion wrth reoli perthnasau gyda'r trydydd sector. Mabwysiadu trefn gomisiynu sy'n gyfeillgar i'r trydydd sector o fewn deddfwriaeth contractau cyhoeddus (iaith, amser paratoi, hyd y cyfnod cyllido, gofynion cymesur).

4. CYDNABOD, DYSGU AC ARLOESI

Mae angen inni gydnabod ac adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, gan symud o astudiaethau peilot ynysig tuag at wreiddio arfer cydweithredol

Materion a nodwyd	Datrysiadau posib
Methiant i adeiladu ar ddysgu blaenorol Yn aml nid yw prosesau comisiynu a darparu grantiau yn ystyried yr hyn sydd i'w ddysgu o ymdrechion blaenorol sy'n golygu bod y gallu i arloesi yn cael ei beryglu.	**Gwreiddio gwelliant parhaus** mewn cylchoedd cyllido statudol Cadw at y Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector.
Diffyg ymwybyddiaeth gan y sector statudol o hyd a lled ei berthynas gyda'r trydydd sector. Diffyg gwerthfawrogiad gan y cyhoedd (sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth) o'r holl gymorth iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu gan y trydydd sector ac, felly, o bwysigrwydd y trydydd sector.	**Casglu a chyhoeddi gwybodaeth** Datblygu strwythur adrodd cyffredin i gyrff cyhoeddus gasglu data cyson a deall swyddogaeth y trydydd sector o ran darparu gwasanaethau statudol. Gwreiddio'r disgwyliad o gydgynhyrchu gyda'r trydydd sector ym meddylfryd y sector statudol a'r cyhoedd.
Prinder capasiti a gallu i werthuso Prinder gallu yn y trydydd sector i werthuso ei weithgareddau a datblygu'r achos busnes dros gael cefnogaeth.	**Prosesau gwerthuso ar y cyd** Galluogi'r trydydd sector i gymryd rhan ar y cyd mewn prosesau gwerthuso, i ddangos ei werth o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal.
Diffyg cyfleoedd i rannu arfer da Diffyg strwythur a systemau ar gyfer rhannu arfer da.	**Galluogi dysgu ar y cyd** Sefydlu fforymau i arddangos a dathlu partneriaethau arloesol ac i alluogi trosglwyddo gwybodaeth rhwng mudiadau.

ADRAN

08

CASGLIAD AC ARGYMHELLION

Mae gan y trydydd sector ran amlwg i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig o ystyried yr angen i symud tuag at ddarpariaeth ar sail egwyddorion darbodus a'r ymrwymiad cymdeithasol a gwleidyddol sy'n bodoli ar hyn o bryd, i gofleidio model o ofal iechyd sy'n seiliedig ar lesiant.

Casgliad

Un o nodweddion y trydydd sector yw ei ymlyniad at werthoedd a allai alluogi'r newid rydym am ei weld:



Mae rhai materion ac atebion wedi'u harchwilio yn y papur, sydd wedi'u grwpio o dan bedair thema eang ar gyfer newid:

- Cydweithio a chydweithredu
- Cynrychiolaeth a chynllunio
- Cynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- Cydnabod, dysgu ac arloesi

Nodir ein prif argymhellion cyffredinol isod. Drwyddynt bydd modd datblygu gwasanaethau integredig sy'n seiliedig ar asedau ac yn darparu'r gorau i bobl Cymru.

ARGYMHELLION

1

Sicrhau

Sicrhau deialog gynnar a chyson rhwng yr holl bartïon perthnasol, er mwyn galluogi atebion cydweithredol, gwasanaethau integredig a sicrhau y gellir defnyddio'r holl asedau ac adnoddau sydd ar gael i sicrhau canlyniadau sy'n flaenoriaeth.

2

Gwneud

Gwneud defnydd o seilwaith presennol y trydydd sector a chryfhau rhwydweithiau presennol.

3

Diogelu

Diogelu a blaenoriaethu buddsoddiad yn y meysydd canlynol. Dyma lle gall y trydydd sector wneud y cyfraniadau mwyaf sylweddol:

rhagnodi cymdeithasol; o'r ysbyty i'r cartref; ymyrraeth gynnar; cydgynhyrchu; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; arloesi; darpariaeth integredig.

4

Cadw

Cadw at God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector.

5

Datblygu

Datblygu dull cenedlaethol, 'system gyfan' o fonitro'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn erbyn blaenoriaethau cyllido a strategol.

ADRAN

09

ATODIAD 1 – METHODOLEG

Ysgrifennwyd y papur hwn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2023, gyda gwaith adolygu diweddarach yn ystod gaeaf 2023/24.

Arweiniwyd y gwaith gan Richard Newton o gwmni ymgynghori Richard Newton, gyda chymorth-

- **Iwan Jones** – Rheolwr Prosiectau, cwmni ymgynghori Richard Newton
- **Kate Rimmington** – Ymgynghorydd Cyswllt, cwmni ymgynghori Richard Newton

Cefnogwyd y tîm gan –

- **Judith Stone** – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cefnogi a Buddsoddi – CGGC
- **Johanna Davies** – Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol – CGGC
- **Fiona Liddell** – Rheolwr Helplu Cymru – CGGC
- **Helen Howson** – Cyfarwyddwr – Comisiwn Bevan

Bu tîm y prosiect yn cwrdd yn wythnosol drwy gydol cyfnod cyflawni'r prosiect.

Rhannwyd y gwaith o gyflawni'r prosiect yn dri cham –

i. Archwilio cyfleoedd a heriau yng nghyd-destun perthnasau'r trydydd sector a'r sector statudol o ran iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u llywio gan ddiben, gan ddilyn tair sianel o gyfranogwyr; mudiadau statudol, mudiadau'r trydydd sector a mudiadau aelodaeth.

ii. Archwilio canlyniadau cam un drwy dair thema; seiliau perthnasau traws-sector cryf, pennu a chyfleu gwerth, a chyflawni newid trawsnewidiol.

iii. Llunio adroddiad

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys –

- **Grwpiau Ffocws** – cynhaliwyd deunaw grŵp ffocws digidol ar draws Cam 1 a Cham 2
- **Sgyrsiau strwythuredig** – gyda rhanddeiliaid allweddol
- Cyfweliadau astudiaethau achos
- Ymchwil desg

Cyfanswm y mudiadau unigol a wahoddwyd	305	Mudiadau unigol ar draws Cam 1 a Cham 2
Cyfanswm a ddaeth i gyd	121	Cyfanswm yr unigolion neu'r mudiadau unigol a ddaeth i o leiaf un Grŵp Ffocws neu gyfweliad un-i-un
% y gwahoddedigion a gymerodd ran	40%	

ADRAN

10

ATODIAD 2 – RHESTR O ASTUDIAETHAU ACHOS

Dilynwch y dolenni i ddarllen y straeon llawn.

Cynnig cymorth hanfodol i geiswyr noddfa sy'n feichiog

Mae Prosiect Partner Geni Caerdydd yn cynnig cymorth i geiswyr noddfa beichiog, gan gynnwys ceiswyr lloches a goroeswyr masnachu pobl.

Cefnogi dioddefwyr canser mewn cymunedau glofaol

Mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT) yn arwain prosiect sydd â'r nod o wella canlyniadau canser yng nghyn-gymunedau'r meysydd glo ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr.

Credu anghredadwy yn rhoi cymorth i ofalwyr

Mae Credu yn darparu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd ym Mhowys, Ceredigion, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych.

Gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn mynd yr ail filltir i gynorthwys pobl

Mae'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA) yn cefnogi'r sector cludiant cymunedol, gan weithio ochr yn ochr â mudiadau sy'n ymwneud â darparu neu roi mynediad at gludiant hygyrch, cynhwysol, nid-er-elw.

Help iach: galluogi pobl trwy wirfoddoli

Mae cydweithio rhwng staff a gwirfoddolwyr yn y sector gwirfoddol a gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol statudol yn Sir Fynwy yn cefnogi pobl sydd â chyflyrau cymhleth.

'Pwyntiau Siarad' yn helpu pobl i osgoi cyrraedd pwynt argyfwng

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio â'r trydydd sector ar ei brosiect Pwyntiau Siarad, gan gynnal sesiynau ym mhob llyfrgell ar draws y sir. Mae'r sesiynau'n cynnig amgylchedd anffurfiol, anfeirniadol gyda'r nod o gael gwared ar y stigma a'r ofn sy'n gysylltiedig â cheisio cael cymorth.

Pan mae cymunedau yn llywio eu lleodd eu hunain, mae'rcymunedau hynny'n elwa

Mae Medrwn Môn yn darparu cymorth a chyngor i grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar gyllid cynaliadwy, gwirfoddoli, llywodraethu da ac ymgysylltu a dylanwadu. Yn ogystal, mae'n cynnal dau brosiect graddfa fawr: Cyswllt Cymunedol Môn a'r rhaglen Cynllunio Lle.

PIVOT yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn Sir Benfro

Partneriaeth o fudiadau trydydd sector yn Sir Benfro yn cefnogi unigolion sy'n dod gartref o'r ysbyty.

Cydweithio gyda phobl ifanc ar ddylunio gwasanaethau digidol

Menter gymdeithasol ac elusen gofrestredig yw ProMo Cymru sy'n gweithio ar y cyd i ddatblygu cyfathrebiadau digidol i gynyddu ymgysylltiad cynulleidfa darged gyda gwasanaethau.

Cynorthwyo pobl ddall a rhannol ddall i gael mynediad at wasanaethau

Mae RNIB Cymru yn darparu cymorth a gwasanaethau ymarferol i bobl ddall a phobl â golwg rhannol, yn ogystal â'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr.

Cymryd gofal i helpu pobl i barhau i fod yn rhan o'u cymuned

Elusen yw Gofal Solfach sy'n cael ei rhedeg gan bobl Solfach a Thre-groes yn Sir Benfro i wella iechyd a llesiant trigolion a'u helpu i aros yn rhan o'u cymuned.

Gall 'The circuit' achub pobl sy'n cael ataliad y galon

Cronfa ddata o ddiffibrilwyr ledled gwledydd Prydain yw'r Circuit, ac mae'n ganlyniad partneriaeth rhwng Sefydliad Prydeinig y Galon (BHF), Cyngor Dadebru'r Deyrnas Unedig (RCUK), Ambiwlans Sant Ioan, a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Ambiwlansys (AACE).

Ôl-ofal hanfodol i oroeswyr strôc

Mae gan y Gymdeithas Strôc flynyddoedd lawer o brofiad o helpu goroeswyr strôc yng ngwledydd Prydain i ailadeiladu eu bywydau. Maent hefyd wedi datblygu eu harbenigedd ymhellach drwy gysylltiadau â mudiadau mewn gwledydd eraill..

Comisiwn
Bevan
Commission

School of Management,
Swansea University Bay Campus,
Fabian Way, Swansea SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630